# SOUTH WALES POLICE YOUTH TRUST

## Bonymaen Kids Play Initiative – Young Volunteers

**The Kids Play initiative provides open access play sessions after school and during school holidays for over 240 children aged 5–11, as well as young volunteers aged 12–16. Kids Play runs activities in the summer for young volunteers, allowing them to access play opportunities, take risks, and develop leadership skills in a safe environment.**

Many of the young volunteers have previously shared concerns about spending time on the streets and the risk of getting into trouble. They also worried about being teased by their peers for attending as participants when they were younger. To support them, Kids Play created a Young Volunteer Programme that recognises their hard work, builds their confidence, and celebrates the support they provide to younger children. Through this programme, the team offers a positive space where children and young people can make new friends, stay active, and develop a wide range of valuable life skills.

The initiative received £2,500 in funding to help employ additional staff to work with the younger children and further support the young volunteers.

As a direct result of the funding, 40 sessions were delivered during the holiday period, providing meaningful structure and engagement for 202 young people. Through these sessions, the young volunteers were able to build trusting relationships with staff, feel accepted, and understand that their voices, views, and opinions genuinely mattered giving them a strong sense of belonging.





Donate to South Wales Police Youth Trust
JustGiving

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

South Wales Police and Crime Commissioner

South Wales Police Youth Trust is a registered charity in England and Wales, no. 1133057.
Registered address: South Wales Police Youth Trust, South Wales Police Headquarters, Cowbridge Road, Bridgend, CF31 3SU

# YMDDIRIEDOLAETH IEUENCTID
HEDDLU DE CYMRU

## Menter Chwarae Plant (Kids Play) Bonymaen – Gwirfoddolwyr Ifanc

**Mae'r Fenter Chwarae Plant yn darparu sesiynau chwarae mynediad agored ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol i fwy na 240 o blant 5–11 oed, yn ogystal â gwirfoddolwyr ifanc 12–16 oed. Mae Chwarae Plant yn cynnal gweithgareddau yn yr haf i wirfoddolwyr ifanc, sy'n eu galluogi i gael mynediad at gyfleoedd chwarae, cymryd risgiau a datblygu sgiliau arwain mewn amgylchedd diogel.**



Mae nifer o'r gwirfoddolwyr ifanc wedi rhannu pryderon yn flaenorol am dreulio amser ar y strydoedd a'r risg o fynd i drafferth. Roeddent hefyd yn poeni am gael eu herian gan eu cyfoedion am fynychu fel cyfranogwyr pan oeddent yn iau. Er mwyn eu cefnogi, creodd Chwarae Plant Raglen Gwirfoddolwyr Ifanc sy'n cydnabod eu gwaith caled, yn meithrin eu hyder ac yn dathlu'r cymorth maent yn ei ddarparu i blant iau. Drwy'r rhaglen hon, mae'r tîm yn cynnig man cadarnhaol lle gall plant a phobl ifanc wneud ffrindiau newydd, cadw'n heini a datblygu amrywiaeth eang o sgiliau bywyd gwerthfawr.

Derbyniodd y fenter £2,500 mewn cyllid i helpu i gyflogi staff ychwanegol i weithio gyda'r plant iau a chefnogi'r gwirfoddolwyr ifanc ymhellach.

O ganlyniad i'r cyllid, darparwyd 40 o sesiynau yn ystod cyfnod y gwyliau, gan ddarparu strwythur ac ymgysylltiad ystyrlon i 202 o bobl ifanc. Drwy'r sesiynau hyn, roedd y gwirfoddolwyr ifanc yn gallu meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â'r staff, teimlo eu bod yn cael eu derbyn a deall bod eu lleisiau, eu safbwyntiau a'u barn yn wirioneddol bwysig, gan roi ymdeimlad cryf o berthyn iddynt.



Rhowch arian i Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru
JustGiving

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | South Wales Police and Crime Commissioner

Mae Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru yn Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif. 1133057.
Cyfeiriad cofrestredig: Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu, Pencadlys Heddlu De Cymru, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU